



Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Conwy County Borough Council

Strategaeth Archwilio Tir Halogedig  
Contaminated Land Inspection Strategy

Adran Gwarchod y Cyhoedd  
Public Protection Department

Adolygiad Mawrth 2016  
March 2016 Review



## Crynodeb Gweithredol

Mae sawl agwedd yn gallu achosi tir halogedig gan gynnwys defnyddiau tir hanesyddol amrywiol a all arwain at risgiau annerbyniol i iechyd dynol a'r amgylchedd ehangach. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi llunio strategaeth archwilio i amlinellu sut y gellir nodi ac archwilio tir halogedig. Mae'n esbonio'r diffiniad Statudol o Dir Halogedig lle mae llygryddion yn gallu achosi niwed sylweddol neu sydd â'r potensial i wneud hynny. Mae Strategaeth Archwilio 2016 yn ddiweddariad o'r fersiwn flaenorol ac yn amlinellu enghreifftiau o gamau a gymerwyd hyd yn hyn i adfer tir yn llwyddiannus a ganfuwyd i gyflwyno risg annerbyniol.

## Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	6
<b>Rhan A - Cefndir</b>	
Cyd-destun Rheoleiddio	7
Amcanion Polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â Thir Halogedig	7
Diffiniad o Dir Halogedig dan Ran IIA o Ddeddf Amddiffyn Amgylcheddol 1990	7
Egwyddor y Cysylltiad Halogion	7
Rôl Reoleiddiol yr Awdurdod Lleol	8
Rôl Reoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru	9
Camau a Gymerwyd Eisoes i Ymdrin â Thir Halogedig yn CBS Conwy	9
Enghreifftiau o Adfer yn dilyn Cyflwyno'r Strategaeth Archwilio Tir Halogedig	10
Nodweddion Ardal CBS Conwy	12
Daearyddiaeth	12
Safbwynt Cenedlaethol	13
Treftadaeth Diwydiannol	13
Daeareg	13
Hydroleg a Hydrodaeareg	16
Cynefinoedd a Thirweddau Naturiol Gwarchoddedig	18
<b>Rhan B – Strategaeth Archwilio</b>	
Pwrpas Strategaeth Archwilio Tir Halogedig	20
Mecanweithiau Eraill a Ddefnyddir i Reoli Tir Halogedig	20
Nodau ac Amcanion y Strategaeth Archwilio	21
Beth fydd Asesiad Risg yn ei gynnwys?	22
Amlinelliad o'r Strategaeth a'r Rhaglen Waith Barhaus	24
Creu Cronfa Ddata o System Gwybodaeth Ddaearyddol	24

Adolygiad o Fapio Defnydd Tir yn Hanesyddol	24
Adolygiad o Wybodaeth Cofnodion Hanesyddol	24
Blaenoriaethu Safle a Sgorio Risg	24
Derbynyddion Blaenoriaeth Sensitif	25
Camau Aseiad Risg	25
Cyswllt Mewnol	27
<b>Rhan C – Ffynonellau Gwybodaeth</b>	
Ffynonellau Data a Rheoli Gwybodaeth	28
<b>Rhan D - Amlinelliad o'r Gweithdrefnau</b>	
Ymdrin â gwybodaeth a Ddarperir i'r Awdurdod gan y Cyhoedd a Sefydliadau o'r tu allan Ynglŷn â Thir Halogedig Posib	30
Delio â Cheisiadau Gwasanaeth Ynghylch Tir Halogedig	30
Darparu Gwybodaeth Cofrestr Gyhoeddus	30
Gwybodaeth a ddarperir dan System Pridiannau Tir Lleol	31
Cyswllt Pellach	31
ATODIAD 1 – Proffiliau Adran Diwydiant yr Amgylchedd	32
ATODIAD 2 – Gweithdrefn Cais am Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd	34
ATODIAD 3 - Gwybodaeth a ddarperir o dan chwiliadau awdurdod lleol	35

## FFIGURAU

		Tudalen Rhif
Ffigwr 1	Lleoliad daearyddol ardal CBS Conwy	12
Ffigwr 2	Chwarel plwm a sinc nodweddiadol a hanesyddol yn Nyffryn Conwy	14
Ffigwr 3	Echdynnu nodweddiadol o Bwll Clai yn Gysylltiedig â Gwaith Brics Trefol	15
Ffigwr 4	Mewnlenwi rhannol o Bwll Gwaith Brics ar ôl Dymchwel Adeiladau Gwaith Brics Buildings	16
Ffigwr 5	Dosbarthiad Eiddo wedi'i wasanaethu gan Gyflenwad Dŵr Preifat yn CBS Conwy, fel a gofnodwyd ar y System Gwybodaeth Ddaearyddol Rheoleiddio a Thai gan gynnwys Rheoliad 9, Rheoliad 10 a Chyflenwadau Sengl	17
Ffigwr 6	Lleoliad Cynefinoedd Naturiol Gwarchoddedig yn CBS Conwy	19

## Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth hon wedi ei chynhyrchu gan Adran Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o dan ofynion Rhan IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Mae'n pennu'r dull a ddefnyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel y prif Awdurdod gorfodi ar gyfer Tir Halogedig. Mae wedi'i anelu at nodi a delio â risgiau annerbyniol o halogi a achosir gan y defnydd hanesyddol o dir.

Mae'n diweddarau'r Strategaeth Archwilio blaenorol a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod.

Mae'r Strategaeth Archwilio wedi ei strwythuro'n bedwar Adran sy'n adeiladu ar y wybodaeth a gafwyd o dan y broses gynharach a'r profiad a fagwyd o weithrediad cynharach o'r ddeddfwriaeth. Mae'r ddogfen wedi'i strwythuro i'r adrannau canlynol:

**Rhan A - Cefndir**

**Rhan B – Strategaeth Archwilio**

**Rhan C - Ffynonellau Data a Rheoli Gwybodaeth**

**Rhan D - Amlinelliad o'r Gweithdrefnau**

## Rhan A - Cefndir

### Cyd-destun Rheoleiddio

Mae'r ddeddfwriaeth wreiddiol sy'n ymwneud â thir halogedig wedi'i ddwyn i rym gan Reoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001. Cafodd ei ddiwygio wedi hynny gan Reoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006 a Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) (Diwygio) 2012.

### Amcanion Polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â Thir Halogedig

Amcanion polisi Llywodraeth Cymru o dan y Canllawiau Statudol presennol yw:

- a) I adnabod a chael gwared ar risgiau annerbyniol i iechyd pobl a'r amgylchedd
- b) I geisio sicrhau bod tir halogedig yn cael ei wneud yn addas ar gyfer ei ddefnydd presennol
- c) Sicrhau bod y beichiau a wynebir gan unigolion, cwmnïau a chymdeithas yn ei chyfanrwydd yn gymesur, yn hylaw ac yn gydnaws ag egwyddorion datblygu cynaliadwy

### Diffiniad o Dir Halogedig o dan Ran IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Mae Adran 78A(2) yn diffinio tir Halogedig at ddibenion Rhan IIA fel:

“unrhyw dir sy'n ymddangos i'r awdurdod lleol yn yr ardal lle mae wedi ei leoli i fod yn y fath gyflwr, oherwydd sylweddau yn, ar neu o dan y tir, fel bod -

- (a) niwed sylweddol yn cael ei achosi neu fod posibilrwydd sylweddol o achosi niwed o'r fath; neu
- (b) bod dyfroedd rheoledig yn cael eu llygru neu'n debygol o gael eu llygru"

Nid yw pob tir sydd wedi'i lygru o weithgaredd hanesyddol gyda'r potensial o fod yn dir Halogedig Statudol gan fod yn rhaid cael llwybr credadwy y gall halogyddion o fewn y tir achosi niwed neu sydd â'r potensial sylweddol i wneud hynny. Rhaid i hyn gael ei gyfuno yn yr hyn a elwir yn Gysylltiad Halogion.

### Egwyddor y Cysylltiad Halogion

Er mwyn i dir gwrdd â'r diffiniad Statudol y mae'n rhaid sefydlu "Cysylltiad Halogion", gan gysylltu'r tair elfen hanfodol canlynol:

## HALOGYDD - LLWYBR - DERBYNNYDD

Mae Halogydd yn sylwedd sydd ar, neu o dan y tir, sydd gyda'r potensial i achosi niwed i Dderbynnnydd perthnasol, neu i achosi llygredd sylweddol i ddyfroedd rheoledig. Derbynnnydd yw rhywbeth y gellir effeithio arno'n negyddol gan halogydd, er enghraifft, person, organeb, ecosystem, eiddo neu ddyfroedd rheoledig. Llwybr yw'r ffordd y bydd/gall Derbynnnydd gael ei effeithio gan Halogydd. Rhaid i'r dair elfen fod yn bresennol er mwyn i Gysylltiad Halogion fodoli, ac i safle gael ei adnabod fel Tir Halogedig Statudol.

### Rôl Reoleiddiol yr Awdurdod Lleol

Mae Rhan IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn mynnu bod CBS Conwy yn nodi ardaloedd o dir sydd o bosib wedi cael eu halogi gan gyn ddefnydd o'r tir. Er bod cyfran fawr o'r baich gwaith hwn a wneir gan yr Awdurdod yn cynnwys tir posib a drefnwyd ar gyfer ailddatblygu neu yn ystod trawsgludiad tir, mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn i'r Awdurdod gynhyrchu Strategaeth Archwilio. Mae'r Strategaeth Archwilio yn amlinellu sut y bydd y tir yn cael ei ymchwilio ar sail strategol. Mae hyn yn galluogi safleoedd sy'n debygol o achosi'r effaith fwyaf sylweddol o ran halogiad i gael eu hystyried yn gyntaf, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Strategaeth Archwilio hefyd yn egluro'r rhyngweithio gyda chyfundrefnau rheoleiddio eraill gan gynnwys y broses Rheoli Datblygu (Cynllunio), lle mae ardaloedd o dir halogedig posibl o fewn ardal y Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael eu hadfer, yn ystod newid defnydd, pan fydd derbynnnyddion sensitif newydd yn cael eu cyflwyno.

Ceir diffiniad manwl o Dir Halogedig Statudol o dan y ddeddfwriaeth a Chanllawiau Statudol cysylltiedig a dim ond cyfran fechan o'r holl dir sydd wedi bod yn destun i gyn ddefnydd tir sy'n llygru a fydd yn berthnasol i hwn. Pan fydd Tir Halogedig Statudol yn cael ei nodi bydd camau adferol yn cael eu cymryd, sy'n gymesur â'r risg a achosir i ddefnydd presennol o'r tir. Bydd tir arall sydd ddim yn bodloni'r diffiniad statudol o Dir Halogedig yn dal i gael ei ystyried o fod wedi'i effeithio i raddau llai gan ei ddefnydd blaenorol, ond efallai na fydd y llygrwyr yn bresennol mewn ffurf y gellir effeithio'n sylweddol ar dderbynnnyddion sensitif. Efallai hefyd y bydd y rhwystrau presennol yn y ddaear, sydd er enghraifft, yn atal amlygiad sylweddol rhag digwydd.

Mae'n ofynnol i safleoedd sy'n cael eu nodi fel Tir Halogedig, o dan y diffiniad Statudol, i ymgymryd â gwaith adfer i safon sy'n gwneud y tir yn addas ar gyfer defnydd presennol y safle. Felly, mae safleoedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer diwydiant neu fasnach yn annhebygol o angen yr un camau unioni fel safleoedd a ddefnyddir ar gyfer defnydd mwy sensitif fel tai, lle y byddai risg amlygiad uwch fel arall yn bodoli. Felly, mae camau adfer, pan fo angen, yn ceisio atal halogiad rhag achosi risgiau annerbyniol i iechyd pobl neu'r amgylchedd ehangach.

Pan fo tir yn cael ei adnabod fel Tir Halogedig Statudol, gwneir cyfres o brofion i ddsrannu cyfrifoldeb am ddelio â'r niwed amgylcheddol gwirioneddol neu bosibl. Gall hyn gynnwys pobl sydd wedi achosi neu ganiatáu, gan wybod hynny i lygredd sylweddol ddigwydd, a ddisgrifir fel y "Person neu Unigolion Priodol". Gall y diffiniad gynnwys ystod eang o ddefnyddwyr, perchnogion neu ddeiliaid y safle yn flaenorol os gellir eu hadnabod a'u hystyried yn gyfrifol am gyfrannu at y llygredd. Gall y cyfrifoldeb hwn hefyd gynnwys perchnogion neu ddeiliaid presennol os nad oes unrhyw bersonau eraill posibl y gellir eu nodi.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, lle y bo'n bosibl, yn sicrhau bod y gwaith adfer Tir Halogedig yn cael ei wneud drwy ddod i gytundeb gwirfoddol gyda'r unigolyn neu unigolion perthnasol. Lle nad yw hyn yn bosibl efallai y bydd angen cyflwyno Rhybudd Statudol.



Ers i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cyflawni cytundebau gwirfoddol i adfer yr holl safleoedd sydd wedi'u pennu'n Dir Halogedig Statudol ac eithrio mewn amgylchiadau lle ne ellir dod o hyd i Bersonau Priodol. Diffinir personau priodol yn y ddeddfwriaeth, ond ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol nid yw bob amser yn bosibl i nodi unigolion sy'n gyfrifol am gostau adfer.

Efallai hefyd y bydd achosion lle gall y costau adfer fod yn anghymesur, a lle byddai caledi yn cael ei achosi yn y gorffennol roedd cymorth grant ar gael ond tydi dulliau ariannu o'r fath ddim ar gael rŵan. Yn absenoldeb person(au) priodol a lle mae Cysylltiad Halogion Sylweddol wedi cael ei nodi, gall Cysylltiad Amddifad gymryd lle, gyda'r gost o adfer yn syrthio ar yr Awdurdod Lleol yn hytrach nag ar unrhyw bartion eraill.

## Rôl Reoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru

### Safleoedd Arbennig

Er mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r prif awdurdod ar gyfer rheoleiddio tir halogedig o fewn ardal y Fwrdeistref Sirol, mae sefyllfaoedd yn golygu bod angen ymglymiad arbenigol ac arbenigedd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae categorïau o safleoedd sydd hefyd yn cael eu diffinio yn y ddeddfwriaeth fel "Safleoedd Arbennig" ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod yn brif awdurdod gorfodi sy'n gyfrifol am y gwaith adfer. Mae hyn yn cynnwys y categorïau posibl canlynol o dir halogedig:

- Tir y Weinyddiaeth Amddiffyn a thir a ddefnyddir at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu; - tir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu neu waredu arfau cemegol neu fiolegol;
- Purfeydd petrolewm;
- Tir o fewn safleoedd niwclear;
- Safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gwaredu tarau asid gwastraff; - safleoedd gweithgynhyrchu neu brosesu ffrwydron; - sefydliadau arfau atomig.

Nid oes unrhyw safleoedd arbennig wedi cael eu nodi o fewn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ers i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno ac yn dilyn gwaith archwilio blaenorol yr Awdurdod.

## Camau a Gymerwyd Eisoes i Ymdrin â Thir Halogedig yn CBS Conwy

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cydlynu rhaglen o waith a ariennir o dan Ddeddf Tir Diffaith 1982 i adennill nifer o hen fwyngloddiau plwm / sinc yn ardal Coedwig Gwydyr. Mae'r safleoedd yr ystyrir i beri'r bygythiad mwyaf i iechyd a diogelwch y cyhoedd yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu eu hadfer, gan arwain at y gwaith sy'n cael ei wneud ym Mharc, Hafna, Dyffryn Conwy ac Aberllyn. Mae gwybodaeth a gafwyd hefyd yn rhoi arwydd o statws archeolegol ecolegol a diwydiannol y safleoedd mwyngloddio.

Er ei bod yn annhebygol y byddai safleoedd wedi'u hadfer yn flaenorol o dan gynlluniau cynharach yn dal i fod mewn cyflwr y gellid ei ddiffinio fel Tir Halogedig Statudol, mae Rhan II A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn darparu rheolaeth deddfwriaethol pellach i alluogi safleoedd o'r fath i gael eu hymchwilio.

Mae'r gwaith adfer a wneir o dan y broses Rheoli Datblygu (Cynllunio) ar adeg y newid arfaethedig o ddefnydd tir wedi mynd i'r afael â halogiad hanesyddol yn y rhan fwyaf o'r safleoedd. Roedd hyn yn

bennaf oherwydd bod y gwaith ailddatblygu yn debygol o greu llwybrau newydd ar gyfer halogiad a fyddai'n effeithio ar ddefnyddwyr terfynol y safle.

Mae safleoedd tirlenwi wedi cau a chyda hanes hysbys o awdurdod lleol yn eu monitro am nwy tirlenwi ar y safle ac ar dyllau turio perimedr lle mae'r rhain wedi cael eu gosod. Gall yr asesiad risg safle penodol sy'n ofynnol o dan y Strategaeth Archwilio fod angen ymchwiliad mwy manwl o'r safleoedd hyn, yn arbennig yn ystod newid defnydd.

Ers cyflwyno'r drefn Tir Halogedig mae'r Awdurdod wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i gael cyllid ar gyfer archwiliad safle a champau adferol sydd wedi dod i gyfanswm o £250,000. Mae gwaith adferol pellach hefyd wedi'i gynnal gan yr Awdurdod lle canfu tir halogedig a oedd wedi effeithio ar dir yr awdurdod lleol. Mae'r tir wedi ei adfer i safon sy'n ei gwneud yn addas ar gyfer ei ddefnydd presennol trwy ddiogelu derbynyddion sensitif rhag niwed posibl drwy ddefnyddio cyllid awdurdodau lleol o £280,000

## Engbreiffiau o Adfer yn dilyn cyflwyno Strategaeth Archwilio Tir Halogedig yr Awdurdod

### **Cyfeirnod Safle PCLA 10**

Mae safle modurdy yn hanesyddol wedi bod â chynnyrch petrol yn gollwng o danc storio dan y ddaear, (UST). Mae cynnod y ddihangfa wedi llygru'r ddaear rhwng y safle a'r adeiladau domestig a masnachol cyfagos. Mae hanes o gwynion yn ymwneud ag arogleuon petrolewm wedi digwydd o fewn adeiladau cyfagos.

Comisiynwyd ymgynghorydd amgylcheddol annibynnol ym Mawrth 2003 i gynnal asesiad risg fesul cam o'r safle. Cwblhawyd cam 1a o'r asesiad a oedd yn cynnwys adolygiad o'r ffeil, ymweliad safle ac ymchwil ychwanegol o'r ddesg ym mis Mai 2003. Cadarnhawyd bod angen ymchwilio halogiad tir a mater iechyd cyhoeddus o dan Ran IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Sefydlodd cam 1b a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2003 drwy gyfrwng asesiad sgrinio bod yr effeithiau tymor hir o anwedd yn annhebygol o fod yn dderbyniol. Cynhyrchwyd model cysyniadol cychwynnol o'r anwedd yn cael mynediad a diffinwyd cwmpas y gwaith maes ar gyfer casglu tystiolaeth i gadarnhau neu wrthod y manylion am y model. Roedd Cam 2a o'r asesiad yn cynnwys arolwg anwedd ac arolwg geoffisegol heb fod yn ymwthiol a gwblhawyd ym mis Hydref 2003, gyda chymorth dyluniad Cam 2b o'r asesiad, gyda ymchwiliad tir ymwthiol a dadansoddiad mewn labordy wedi'u cwblhau ym mis Ionawr 2004. Cwblhawyd Cam 2c o'r adroddiad ym mis Ebrill 2004, lle cynhaliwyd asesiad risg meintiol manwl (DQRA), gan ddefnyddio data labordy a gwaith maes a oedd yn cadarnhau bod profion Rhan IIA wedi eu cyflawni.

Cafodd y safle ei bennu fel Tir Llygredig ym mis Awst 2004, ac yn dilyn hynny daethpwyd i gytundeb am y gwaith adfer gwirfoddol i gael ei gyflawni gan berchennog y garej ar y tir o fewn cwrtill safle'r garej ac yn cynnwys ffynhonnell sylweddol yr halogiad. Gan nad yw perchennog presennol y garej wedi gweithredu'r orsaf betrol ac heb achosi neu wedi ganiatau yn fwriadol i wirod petroliwm ddianc, nid oedd yn atebol, o dan gwmpas y ddeddfwriaeth ar gyfer glanhau'r cynnyrch petrolewm sydd wedi dianc, a oedd wedi digwydd y tu hwnt i ffin y safle. Wrth i hyn ddod yn gyfrifoldeb ar y perchnogion eiddo cyfagos roedd potensial ar gyfer caledi sylweddol. Roedd yr Awdurdod yn llwyddiannus mewn sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru,

o dan ffrwd ariannu arbennig a oedd ar gael at y diben hwn yn ystod blynyddoedd cynnar y gyfundrefn tir halogedig newydd.

Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd contractwr adfer arbenigol i gynnal cynllun adfer cymeradwy, a ariennir ar y cyd gan weithredwr y safle a'r Awdurdod trwy gyfrwng cymorth grant. Mae'r cynllun yn cynnwys cael gwared ar y ffynhonnell llygru sy'n weddill a thrin y tir ar y safle gan gloddio anwedd pridd, gwlychu aer a thriniaeth gemegol yn y fan a'r lle. Roedd y gwaith adfer yn llwyddiannus ar gyfer 3 eiddo wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad, gan ei gwneud yn bosib i gyhoeddi Datganiad Adfer erbyn Mawrth 2007.

Roedd yr angen am gamau adferol ychwanegol ar gyfer y pedwerydd eiddo wedi'i gynnwys yn y Penderfyniad gan fod y sylweddau a ddihangodd yn dal i fodoli o dan sylfeini'r adeilad, gan gyflwyno risg o amlygiad gweddilliol. Dyluniwyd a gweithredwyd ail gynllun adfer gan arwain at gyflawni'r targed adfer a bod yr holl eiddo yn cael ei adfer yn llwyddiannus. Cynhyrwyd datganiad adfer terfynol ym mis Mehefin 2008.

### **Cyfeirnod Safle PCLA 75**

Nodwyd fod cyn-fwynglawdd plwm gyda Chysylltiad Llygrydd Sylweddol rhwng halogiad plwm gweddilliol ar wyneb hen domen sorod â defnyddwyr safle o leoliad hamdden anffurfiol. Roedd y Safle yn destun samplu a dadansoddi deunydd arwyneb a daeth Asesiad Risg ar y safle i'r casgliad bod potensial o amlygiad sylweddol i ddefnyddwyr y safle. Cafodd y safle ei Gadarnhau ym mis Mai 2007 fel Safle Amddifad, a chafodd y camau adferol angenrheidiol eu hariannu gan yr Awdurdod. Roedd y camau adfer yn cynnwys gwaith i ail-broffilio'r safle a gwella diogelwch y safle ac arwyddion i atal amlygiad sylweddol rhag digwydd.

Cynhyrwyd Datganiad Adfer ar gyfer y safle ym mis Mehefin 2007.

### **Cyfeirnod Safle PCLA 169**

Cymerwyd camau adferol gwirfoddol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i adfer hen domen waith brics a nodwyd o dan Strategaeth Archwilio Tir Halogedig blaenorol yr Awdurdod o fod wedi cael eu llenwi â lludw a brics caled. Nododd y cofnodion defnydd tir bod y safle yn mynd i gael ei ddefnyddio i greu datblygiad tai. Roedd derbynyddion sensitif yn bresennol ar y safle.

Cafodd y safle ei ymchwilio gan Ymgynghoriaeth Amgylcheddol arbenigol, gydag argymhellion yr adroddiad yn cynghori cael gwared ar lwybrau posibl o amlygiad gan ddefnyddwyr y safle i lygryddion presennol o fewn y safle. Pennwyd y gofynion adferol ar gyfer y safle yn ystod y cyfnod cyn trosglwyddo Stoc Tai yr Awdurdod Lleol, a daethpwyd i gytundeb i gyflawni camau adferol cyn trosglwyddo'r stoc. Mae'r camau adfer, a ariennir gan yr Awdurdod, wedi arwain at gamau adferol sy'n cynnwys cael gwared ac ailosod pridd newydd yn lle'r pridd wedi'i halogi o fewn 55 annedd ar wahân ac ailgyflwyno gerddi i gael gwared ar y potensial o amlygiad sylweddol i feddianwyr y safle. Rheolir y gwaith a'r dilysu ar y safle gan yr Awdurdod.


## Nodweddion Ardal CBS Conwy

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwasanaethu cyfanswm poblogaeth breswyl o 112,700, 82% ohonynt yn byw ar hyd y llain arfordirol yn nhrefi Abergele, Bae Colwyn a Llandudno, gyda llawer o'r datblygiad ar y bryniau sydd yn codi'n serth i mewn i'r tir.

Mae tua 35% o Gonwy tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri, felly mae twristiaeth yr un mor bwysig yng nghanol y tir ag y mae yn y trefi glan môr. Yn ystod misoedd yr haf mae cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n aros yn y Fwrdeistref Sirol, yn breswylwyr ac yn ymwelwyr, oherwydd lefelau uchel o dwristiaeth (mae 11.6% o holl letytwristiaeth Cymru yng Nghonwy).

## Daearyddiaeth

Mae ffin arfordirol gogleddol Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymestyn am 37 milltir ar hyd Môr Iwerddon rhwng Llanfairfechan yn y gorllewin i Afon Clwyd yn y dwyrain. Mae'n croesi amrywiaeth o dirweddau i lawr i Ddolwyddelan ac ar draws i Gerrigydrudion yn y de-orllewin ac yn cynnwys arwynebedd o 113,000 o hectarau.



Ffigwr 1 - Lleoliad Daearyddol a Maint ardal CBS Conwy.

## Safbwynt Cenedlaethol

O fewn safbwynt cenedlaethol mae CBS Conwy wedi ei leoli mewn ardal lle mae gan y cyhoedd ddisgwyliadau uchel o ansawdd amgylcheddol ac mae pwysigrwydd twristiaeth i'r economi leol yn cydfynd â hyn. Caiff hyn ei adlewyrchu yn harddwch naturiol yr ardal a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) yng Nghonwy. Mae cyfran sylweddol o Gonwy i'w gael ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Gwelodd yr ardal dwf sylweddol yn ystod Oes Fictoria lle mae datblygiadau yn y seilwaith trafndiaeth wedi gwella hygyrchedd o drefi diwydiannol yng Ngogledd Orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Mae datblygiad yn gysylltiedig â hyn mewn ardaloedd o dwf trefol cyflym gan gynnwys Llandudno a Bae Colwyn.

## Treftadaeth Diwydiannol

Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd ardaloedd yn Nyffryn Conwy a'r Gogarth, Llandudno eisoes wedi sefydlu fel safleoedd cloddio am fwynau fel plwm, sinc a chopr, ac ehangwyd ar hyn yn ystod oes Fictoria.

Mae'r gwaith a wnaed o echdynnu mwynau a phrosesu a mireinio yn lleol wedi arwain at y potensial hanesyddol ar gyfer halogiad. Mae wedi effeithio ar ddalgylch y tir a'r afon yn enwedig oherwydd maint daeryddol y defnydd a wnaed o'r tir a'r amserlen y cyflawnwyd y gwaith. Yn ddiethriad gall arwain at ymddangosiad gwahanol i'r dirwedd ffisegol, a fyddai fel arall wedi digwydd. Ynghyd â hyn, mae'r aneddiadau a'r trefi wedi cyflwyno goblygiadau mwy arwyddocaol ar gyfer yr ardaloedd o ran gwaredu gwastraff a'r angen i ganoli ardaloedd dynodedig ar gyfer gwaredu gwastraff ar raddfa gynyddol wrth i'r rhan fwyaf o drefi a phentrefi ehangu.

Mae natur newidiol y defnydd o danwydd dros ddiwedd y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg wedi arwain at greu gweithfeydd nwy i gynhyrchu a mireinio nwy glo yn agos at lle'r oedd angen i'r cynnyrch gael ei ddefnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r prif ganolfannau poblogaeth wedi'u gwasanaethu gan gyfleuster o'r fath, a weithredwyd am sawl degawd a'u hailddatblygu a'u ehangu wrth i'r galw am "nwy tref" gynyddu. Mae cynhyrchu sgil-gynhyrchion o'r broses a gafodd eu storio ar y safle cyn eu gwaredu wedi arwain at lygru'r ddaear ar safle'r gweithfeydd.

Mae'r gwaith o adeiladu rheilffordd ar hyd arfordir Gogledd Cymru wedi galluogi i sefydlu llawer o'r datblygiadau a grybwyllwyd eisoes. Roedd yn hanfodol ar gyfer allforio mwynau, yn ogystal â mewnforio glo ar gyfer cynhyrchu nwy y dref. Yn ddiweddarach gwasanaethodd y diwydiant oedd yn dod i'r amlwg ar droad yr Ugeinfed Ganrif gan gynnwys ardaloedd cynhyrchu diwydiannol fel Cyffordd Llandudno.

Roedd lleoliad strategol yr ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd wedi arwain at ddatblygiad mewn diwydiant i gefnogi ymdrech y rhyfel. Enghreifftiau o hynny yn cynnwys gweithgynhyrchu cydrannau awyrennau yng Nghyffordd Llandudno (yn ddiweddarach yn dod yn brif safle gweithgynhyrchu ar gyfer Hotpoint yng Ngogledd Cymru) a sefydlu Harbyrau Mulberry yn Neganwy a ddefnyddiwyd yng nglaniadau D-Day.

## Daear


Mae cysylltiad uniongyrchol â mwyneiddiad o ardal Conwy a gweithgaredd diwydiannol blaenorol sydd wedi digwydd. Mae gwythiennau mwynol Galena (mwyn plwm) yn gyffredin ar draws rhanbarth Gogledd Cymru, gan ddod yn faes hanesyddol pwysig ar gyfer cloddio metel. Yn Nyffryn Conwy lle mae'r mwyneiddiad yn digwydd o ganlyniad i feysydd ymwithiadau igneidd megis Llanrwst a Betws y Coed ceir mwyneiddiad helaeth. Byddai echdynnu mwynau fel arfer yn cael ei gynnal yn agos at

weithgareddau prosesu cynradd ac uwchradd i wella'r economeg, ond gallai arwain yn ddieithriad i wahanol safonau rheolaeth ar gyfer y cynhyrchion gwastraff sy'n deillio o hynny. Yn gyffredinol byddai tomenni gwastraff yn cael eu creu yn y man cynhyrchu a'u gadael wrth i'r cynhyrchu ddod i ben.

Mae gwahanol elfennau a allai fod yn wenwynig ac sy'n digwydd gyda'u gilydd o fewn y gwythiennau mwynol yn cynnwys plwm, sinc a chadmiwm. Er y gall hyn gael effaith ar ddefnydd tir y safle yn uniongyrchol, wrth drwytholchi adneuon gwastraff gall hyn hefyd arwain at y potensial i'r niwed amgylcheddol i adael y safle. Gall Cysiau Dŵr i lawr yr afon o domenni gwastraff wedyn fod yn agored i effeithiau.

Mae mwyngloddiâu sinc a phlwm wedi eu gweithio'n helaeth yn barod fel y cofnodion map Arolwg Ordans cyntaf, yn Epoch 1, yn ystod canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae ffigur 1 isod yn dangos mwynglawdd plwm nodweddiadol, sy'n cofnodi lleoliad siafftau a lefelau a graddau'r domenni rwbél lle roedd deunyddiau gwastraff dros ben yn cael eu cadw.


Ffigur 2 – Mwynglawdd Sinc a Phlwm Nodweddiadol yn Nyffryn Conwy



Hawlfraint a hawl cronfa ddata Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group Limited (Cedwir pob hawl 2016)

Cafodd y gwaith o ddsbarthu dyddodion clai ger aneddiadau tref cynnar eu hecsbloetio yn gyffredinol ar gyfer cynhyrchu brics yn niwedd y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Arweiniodd hynny at echdynnu clai i gynhyrchu brics i gyflenwi deunyddiau adeiladu ar gyfer ehangu tref ac roedd gweithfeydd brics wedi eu lleoli yn ddieithriad fel y ffynhonnell deunydd crai, oherwydd y gost cynhenid o gludiant. Yn dilyn eu tranc, gadawyd gweithfeydd clai, ond byddai'r strata clai gwaelodol anhydraid yna'n arwain at greu pyllau o ddŵr llifogydd gan atal y bwriad o greu datblygiad pellach. Mae enghraifft o hynny'n cael ei ddangos yn Ffigur 2. Roedd yn gyffredin i adfer yn ddiweddarach drwy fewnlenwi, yn dilyn lledaeniad o ardaloedd trefol, weithiau gyda ynn a chlincer o odyau brics eraill neu weithgarwch diwydiannol cyfagos.

Ffigur 3 - Echdynnu nodweddiadol o Bwll Clai yn Gysylltiedig â Thref Gwaith Brics




Copyright and database right Crown Copyright and Landmark Information Group Limited (All rights reserved 2016)

Gall cyfnodau rhwng mapio Epochs ddangos newidiadau helaeth yn y ffin ddatblygu gwreiddiol gyda mewnlenni rhannol wrth i adeiladau gael eu dymchwel. Gall ffynonellau llygredd o fewn y mewnlenni gynnwys deunyddiau cloddio dros ben o ddatblygiadau cyfagos, llosgydd lludw a gwaredu gwastraff domestig o ardaloedd trefol cyfagos.



Ffigur 4 - Mewnlenwi rhannol o Bwll Gwaith Brics ar ôl Dymchwel Adeiladau Gwaith Brics



Hawlfraint a hawl cronfa ddata Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group Limited (Cedwir pob hawl 2016)

### Hydroleg a Hydroddaeareg


Brigiadau o galchfaen carbonifferaidd sy'n gyffredin ar y Gogarth, Trwyn y Fuwch a Llysaen sydd wedi eu categorio fel Dyfrhaenu Mawr, er nad yw cyflenwadau dŵr yfed cyhoeddus ddim fel arfer yn cael eu tynnu o unrhyw ffynonellau dŵr ddaear o fewn ardal Conwy. Mae'r rhwydwaith cyflenwi cyhoeddus yn cael ei weithredu gan Dŵr Cymru ac yn cael ei fwydo i raddau helaeth gan gronfeydd cronni dŵr wyneb. Wedi'u lleoli'n gyffredinol ar draws ardaloedd ucheldirol daearyddol ardal Conwy, mae'r cronfeydd mwyaf arwyddocaol yn ôl cyfaint yn cynnwys Llyn Brenig, Llyn Alwen a Llyn Cowlyd.

Mae mwy na 500 o gyflenwadau dŵr preifat a leolir yn y Fwrdeistref Sirol yn cael eu rheoleiddio o dan Reoliadau Cyflenwad Dŵr Preifat 2010. Yn gyffredinol mae cyflenwadau dŵr preifat yn ddarostyngedig i driniaeth bacteriolegol a chemegol i sicrhau ansawdd iachus sy'n cael ei gynnal yn annibynnol o Dŵr Cymru, fel arfer gan yr eiddo unigol sy'n cael ei wasanaethu gan y ffynhonnell gyflenwi. Mae'r math o gyflenwad yn amrywio o ddŵr wyneb neu ddŵr daear bas i dyllau turio dŵr daear dwfn fel bod ganddynt y potensial i gael eu heffeithio gan dir halogedig. Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 75 o Gyflenwadau yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgaredd masnachol gan gynnwys paratoi neu gynhyrchu bwyd (a elwir yn Rheoliad 9 Cyflenwadau) a 25 o ffynonellau dŵr eraill yn cael eu defnyddio fel cyflenwadau a rennir yn y cartref sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo (a elwir yn Rheoliad 10 Cyflenwadau). Nid yw'r cyflenwadau sy'n weddill yn gwasanaethu eiddo sengl yn cael eu profi'n rheolaidd o dan y Rheoliadau, ond yn cael eu hystyried lle byddai siawns i'r dŵr ffynhonnell gael ei effeithio gan halogiad hanesyddol.

Mae'r holl gyflenwadau dŵr preifat wedi'u cofnodi ar y system GIS Rheoleiddio a Gwasanaethau Tai. Mae hyn yn galluogi agosrwydd cyflenwadau sensitif i ardaloedd o dir halogedig posibl i gael eu nodi a hefyd yn hysbysu Aseiad Risg pan gynhaliwyd o dan Reoliadau Cyflenwi Dŵr Preifat 2010. Mae'r Cyflenwad Dŵr Preifat yn derbynnydd posibl o dan y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig.



Ffigur 5 – Dosbarthu Eiddo a wasanaethir gan Gyflenwad Dŵr Preifat yn CBS Conwy, fel a Gofnodwyd ar y System GIS Rheoleiddio a Thai gan gynnwys Rheoliad 9, Rheoliad 10 a Chyflenwadau Sengl)



You are not permitted to copy, sub-license, distribute or sell any of this data to third parties in any form. Ni cheir hysbysu, gwerthu, dosbarthu na gwerthu'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf. © Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100023380 © Hawffraint y Goron a hawlau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordans 100023380



## Cynefinoedd a Thirweddau Naturiol Gwarchoddedig


Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) wedi'u hysbysu o dan ddarpariaethau Adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), “.....i fod yn unrhyw ardal o dir o ddiddordeb arbennig oherwydd unrhyw un o'i fflora, ffawna, neu nodweddion daearegol neu ffisiograffigol....” Mae'r ardaloedd yng Nghonwy wedi'u tywyllu ar Ffigur 6.

Yn ystod yr arolygiad blaenorol o'r safleoedd halogedig posibl, mae'r Awdurdod eisoes wedi dod ar draws ardaloedd cynefinoedd naturiol a ddiogelir sy'n gysylltiedig â chyn-fwyngloddiau metel. Mae lefelau rhai metelau wedi cael eu darganfod o fod wedi arwain at dwf rhywogaethau o ddiddordeb ecolegol sy'n goddef metel. Mae Tir Halogedig Statudol wedi cael ei adnabod gyda Chysylltiadau Halogion Sylweddol a sefydlwyd rhwng lefel plwm yn y pridd ar wyneb y safle a defnyddwyr hamdden o'r safle. Er bod camau adferol wedi eu cynnal yn bennaf ar gyfer diogelu iechyd pobl, bu ymgynghori helaeth gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel corff statudol blaenorol i Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ystod y camau gweithredu adferol bu'n rhaid rhoi mesurau ar waith i ddiogelu rhywogaethau metaloffyt sensitif sy'n tyfu ar y rwbwl mwyngloddio hanesyddol.

Cynhaliwyd archwiliadau blaenorol yn agos at gynefinoedd naturiol sensitif o dan y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig presennol ar ôl ymgynghori â swyddogion arbenigol Cyfoeth Naturiol Cymru. Efallai y bydd yn ofynnol i barhau i wneud unrhyw archwiliadau safle pellach ar safleoedd a ddiogelir ar ôl ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru.



Ffigur 6 - Lleoliad Cynefinoedd Naturiol Gwarchoddedig yng CBS Conwy (ardaloedd wedi'u hamlinellu gyda llinellau toredig coch)



You are not permitted to copy, sub-license, distribute or sell any of this data to third parties in any form. Ni cheuch gopio, is-dryddedu, dosbarthu na gwerthu'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.  
 © Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100023380  
 © Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arohwg Ordnans 100023380



## Rhan B – Strategaeth Archwilio

### Pwrpas Strategaeth Archwilio Tir Halogedig

Mae'r Strategaeth Archwilio Tir Halogedig yn darparu strwythur lle bydd tir halogedig posibl yn cael ei flaenoriaethu a'r broses lle cymerir camau addas i reoli'r risg a berir i dderbynyddion sensitif. Fel y soniwyd yn gynharach, gall tir a allai fod yn halogedig gael ei reoli gan yr Awdurdod o dan nifer o sefyllfaoedd ac nid yn unig trwy archwiliad wedi'i raglennu. Ystyrir felly y bydd Tir Halogedig posibl yn cael ei reoli o dan amrywiol brosesau rhyngberthnasol.

### Mecanweithiau Eraill a Ddefnyddir i Reoli Tir Halogedig

Mae safleoedd llygredig posibl yn cael eu hystyried o dan y broses Cynllunio (Rheoli Datblygu). Er y bydd archwiliadau arferol yn cael eu trefnu ar gyfer safleoedd, efallai y cyflwynir tir yn gynt ar gyfer ailddatblygu a allai hefyd fod â'r potensial i gyflwyno derbynyddion sensitif newydd. Rhennir manylion safleoedd sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau blaenorol, all olygu bod yna risg i'r tir fod yn llygredig rhwng swyddogion achos Iechyd yr Amgylchedd a Rheoli Datblygu (Cynllunio) fel y gall risgiau posibl i ddefnyddwyr y safle yn y dyfodol gael eu hystyried. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n ofynnol i gyflwyno cynigion ymchwilio i'r safle ac adfer y safle trwy'r broses Cynllunio. Mae gan y broses ymgynghori ffurfiol fewnbwn helaeth gan arbenigwr tir halogedig o fewn Iechyd yr Amgylchedd. Mae hyn yn sicrhau bod y risgiau posibl o halogi yn cael eu trin yn iawn cyn newid y defnydd i ddefnydd tir mwy sensitif. Mae gwybodaeth yn ymwneud â safleoedd posibl i'w hystyried yn cael eu darparu i Swyddogion Cynllunio i'w hystyried fel cyfyngiadau datblygu posib. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadolygu pan fydd unrhyw safleoedd datblygu posibl newydd yn cael eu cynnig.

## Nodau ac Amcanion y Strategaeth Archwilio

O dan y Strategaeth bydd yr Awdurdod yn:

- Cynnal Asesiad Risg o dir allai fod yn halogedig ar sail blaenoriaeth yn unol â sgorio risg o dderbynyddion blaenoriaeth sensitif.
- Lleihau'r risgiau annerbyniol i Iechyd Dynol lle mae'r rhain yn cael eu hadnabod.
- Defnyddio'r broses Rheoli Datblygu (Cynllunio) a pharhau i adfer tir halogedig posibl cyn y cyflwynir Derbynyddion Sensitif newydd, gan leihau'r baich ariannol ar gamau adferol ar yr Awdurdod a threthdalwyr
- Datblygu cofnod effeithlon a modern o ardaloedd gyda thir halogedig posibl.
- Adolygu a defnyddio proses addas o ddogfennu'r holl gamau adferol sydd wedi'u gwneud i ddangos bod y tir yn addas i'w ddefnyddio.

Mae'r Awdurdod yn ystyried y Nodau hyn i fod yn gyson ag Amcanion Polisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gallu'r Awdurdod i gyflawni gwaith ymchwilio manwl i'r safle sy'n cynnwys samplu ymwithiol a dadansoddiad cemegol yn ddarostyngedig i lefel yr adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd ar adeg adolygu'r Strategaeth Archwilio. Wrth roi'r Strategaeth Archwilio blaenorol ar waith, mae'r Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer camau adferol ar ôl cychwyn gan ddefnyddio cyllid mewnol yr Awdurdod Lleol ar gyfer archwilio safle. Oherwydd mesurau caledi o fewn llywodraeth leol a chau'r ffrydiau cyllid grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, mae gallu'r Awdurdod i gynnal archwiliad manwl o'r safle, ac unrhyw gamau adfer dilynol sydd o bosib yn ofynnol ar gyfer safleoedd o flaenoriaeth, o bosib yn cael eu cyfyngu yn sylweddol.

### **1 . Cynnal Asesiad Risg o dir a allai fod yn halogedig ar sail blaenoriaeth yn unol â sgorio risg o dderbynyddion blaenoriaeth sensitif.**

Mae dehongli Rhan IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y mater o Ganllaw Statudol<sup>1</sup> diwygiedig. Elfen allweddol yw mabwysiadu dull yn seiliedig ar risg wrth flaenoriaethu tir ar gyfer archwilio yn y dyfodol.

Yng nghyd-destun y Canllaw, mae Rheoli Risg yn cael ei ddiffinio fel cyfuniad o'r canlynol:

- (a) y tebygolrwydd y bydd niwed, neu lygredd i ddŵr yn digwydd o ganlyniad i halogyddion yn, ar neu o dan y tir; a
- (b) graddfa a difrifoldeb y niwed neu'r llygredd pe bai hynny'n digwydd



## Beth fydd Asesiad Risg yn ei gynnwys?

Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag Asesiad Risg o'r tir mewn modd a fydd yn dilyn arfer dda sy'n berthnasol ac yn cael ei gydnabod. Bydd yr Asesiad Risg yn ystyried y defnydd presennol o'r tir a'r ardaloedd cyfagos, i ystyried y potensial bod Cysylltiad i Halogion yn bodoli. Bydd yr Asesiad Risg yn cymryd i ystyriaeth y Canllaw Statudol diweddaraf sydd wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Yn y lle cyntaf bydd yn golygu fel gofyniad lleiaf y bydd adolygiad yn cael ei wneud ar wybodaeth cofnodion hanesyddol a fydd yn hysbysu astudiaeth pen desg gyda ymweliad safle, ac yna ymweliad ar droed i ddilyn. Bydd asesiad risg pellach yn cael ei wneud yn amodol ar argaeledd data monitro y safle neu ddata arall lle y gellir ei gael o arolygon safle ymwithiol.

## **2. Lleihau'r risgiau annerbyniol i Iechyd Dynol lle mae'r rhain yn cael eu hadnabod.**

Ers cyflwyno'r drefn Tir Halogedig presennol mae'r Awdurdod wedi nodi safleoedd lle mae Cysylltiadau Halogion Arwyddocaol (a ddisgrifir yn flaenorol fel Cysylltiadau Llygrydd Arwyddocaol) wedi bod yn bresennol. Mae camau gweithredu addas wedi'u cymryd i sicrhau bod y tir dan sylw yn cael ei adfer i safon gan ei wneud yn addas i'w ddefnyddio ac sydd bellach ddim yn cael ei ddiffinio yn Statudol fel Tir Halogedig. Bydd yr Awdurdod yn parhau i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i gael gwared ar unrhyw risgiau annerbyniol lle mae'r rhain yn cael eu hadnabod yn y dyfodol, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael.

## **3. Defnyddio'r broses Rheoli Datblygu (Cynllunio) a pharhau i adfer tir halogedig posibl cyn y cyflwynir Derbynyddion Sensitif newydd, gan leihau'r baich ariannol o gamau adferol ar yr Awdurdod a threthdalwyr**

O fewn CBS Conwy mae'r broses Rheoli Datblygu (Cynllunio) wedi chwarae rôl bwysig ac yn parhau i wneud hynny o ran sicrhau adfer tir a allai fod yn halogedig mewn modd diogel. Ardaloedd o dir sydd o bosib wedi cael eu heffeithio gan gyn ddefnydd tir yn cynnwys tir-lenwi, gorsafoedd petrol yn storio tanwydd a chynhyrchu nwy y dref wedi'u dogfennu'n dda. Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod unrhyw ailddatblygiad yn ystyried y goblygiadau posibl i amlygiad i ddefnyddwyr y safle newydd. Er na fydd halogyddion yn effeithio'n sylweddol ar ddefnyddiau risg is sy'n bodoli eisoes, efallai bod y llwybrau newydd i halogiad yn cael eu creu yn ystod y datblygiad. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, drwy gael gwared ar ddeunyddiau wyneb caled neu arwyneb ar y safle sy'n gweithio fel rhwystr ymarferol i amlygiad ac mae gan adeiladau newydd y potensial i gael eu hadeiladu o fewn ardaloedd o dir llygredig. Gan ddibynnu ar natur defnydd hanesyddol y safle efallai bod halogyddion nwyol neu anwedd yn awr gyda'r potensial i effeithio manau cyfyngedig lle y gallent yn flaenorol ryddhau'r halogyddion yn ddiniwed i'r aer. Gallai creu ardaloedd gardd ddomestig ganiatáu cyswllt ffisegol gyda phridd lle yr arferai fod wedi'i orchuddio gan wyneb caled sylweddol.

Pan fo tir halogedig posibl wedi ei leoli yn agos at safle'r datblygiad arfaethedig, mae amodau cynllunio yn gofyn am ymchwiliad priodol i'r safle ac i gymryd camau adferol angenrheidiol. Gan fod yn rhaid i'r broses rheoli datblygu sicrhau bod tir sy'n cael ei ddatblygu yn methu cael ei bennu yn dir halogedig Statudol efallai y bydd angen lefel uwch o gamau adferol. Bydd yr Awdurdod, drwy gynnal y lefel briodol o graffu gan weithwyr proffesiynol Tir Halogedig, yn sicrhau bod tir a ddatblygir yn cael ei adfer yn addas.

Efallai y bydd tir sydd o bosib yn halogedig oherwydd defnydd tir yn y gorffennol yn cael ei ddyrannu i gael ei ailddatblygu o dan y Cynllun Datblygu Lleol. Lle mae tir o'r fath dan berchnogaeth yr Awdurdod, bydd archwiliad safle priodol yn cael ei gynnal i benderfynu ar gyfyngiadau posibl y safle, y ddau i hysbysu'r broses gynllunio o fathau addas o ddatblygiad ac i arwain datblygwyr posibl ynghylch cwmpas ymchwiliad pellach a chamau unioni tebygol sydd o bosib eu hangen.

#### **4. Datblygu cofnod effeithlon a modern o ardaloedd gyda thir halogedig posibl.**

Mae cofnod gwybodaeth sylweddol yn cael ei gadw gan yr Awdurdod ar gyfer sawl safle sydd wedi bod yn destun cyn ddefnydd llygrol posibl. Mae cofnodion llywodraeth leol yn cael eu trawsnewid ar hyn o bryd o system gofnodi ar bapur traddodiadol i system electronig fodern. Mae'n bwysig bod cofnodion hanesyddol sy'n cynnwys gwybodaeth hanesyddol werthfawr yn ymwneud â halogi posibl yn cael eu dogfennu'n briodol er mwyn galluogi mynediad effeithlon pan fo angen ar gyfer asesiadau yn y dyfodol. Mae'r broses hon yn mynd rhagddo ac yn cael ei yrru gan foderneiddio llywodraeth leol sy'n ail-leoli swyddfeydd hŷn i eiddo mwy canolog sy'n addas i'r diben.

#### **5. I adolygu ac i ddogfennu'r holl gamau adferol addas o'r hyn a wneir i ddangos bod y tir yn addas ar gyfer defnydd**

Mae tir sydd wedi bod yn destun camau adfer o ganlyniad i Ran IIA o DDA 1990 yn cael ei gofnodi ar y Gofrestr Gyhoeddus Statudol perthnasol. Tir arall heb ei gynnwys ar y gofrestr gyhoeddus yw tir sydd wedi cael ei adfer yn wirfoddol ond heb gael ei bennu fel tir neu dir a oedd yn llygredig yn flaenrol ond yn ddarostyngedig i gamau unioni dan y broses gynllunio gan ei wneud yn addas i'w ddefnyddio a heb y potensial iddo gael ei bennu yn dir halogedig yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn ystyried pa mor bwysig yw sicrhau bod yr holl gamau a gymerir i ymchwilio ac adfer tir halogedig posibl yn cael ei ddogfennu'n briodol.

## Amlinelliad o'r Strategaeth a'r Rhaglen Waith Barhaus

Roedd yr adran flaenorol yn amlinellu Nodau ac Amcanion y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig a fydd yn cael ei gyflawni drwy weithredu'r camau canlynol:

### Creu Cronfa Ddata System Gwybodaeth Ddaearyddol

Ers cyflwyno Rhan IIA DDA 1990, mae'r Awdurdod wedi datblygu cronfa ddata o dir halogedig posibl sy'n cael ei reoli gan system GIS Mapinfo. Mae hyn wedi galluogi'r safleoedd posibl i gael eu cofnodi a'u mapio. Yna, gellir categorio'r risg bosibl y mae'r safle yn ei achosi i'r amgylchedd yn seiliedig ar agosrwydd at dderbynyddion sensitif a dyfroedd rheoledig. Mae hyn yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r system GIS Mapinfo sydd wedyn yn gallu cyfrifo pa mor agos y mae'r ffynhonnell halogedig posib i'r derbynyddion sensitif yn ymyl neu o dan y safle. Yna gellir cyfrifo sgôr risg sy'n seiliedig ar y potensial ar gyfer niwed amgylcheddol.

### Adolygiad o Fapio Defnydd Tir yn Hanesyddol

Gellir dod o hyd i leoliad tir halogedig posibl diolch i fapio defnydd tir hanesyddol. Mae'r data hwn yn cael ei ategu wrth i safleoedd newydd posibl gael eu nodi o wahanol gyfnodau mapio neu ffynonellau dibynadwy eraill o wybodaeth sy'n cael eu hadolygu.

Gall tir sydd â'r potensial i fod yn halogedig fod yn destun amryw o gyn weithgareddau. Mae hyn yn debygol o fod wedi cynnwys defnydd diwydiannol sylweddol, gan gynnwys er enghraifft gwaith nwy, prosesu cemegol neu waredu gwastraff a allai fod wedi ei wneud dros sawl degawd. Yn ehangach, mae'r math o weithgareddau sy'n cael eu hystyried fel rhai gyda photensial llygrol arwyddocaol yn cynnwys cyn-ddefnydd o fathau o dir wedi'u cynnwys ym Mhroffiliau Diwydiant Adran yr Amgylchedd. Mae'r mathau hyn o ddefnydd tir wedi'u dangos yn llawn yn Atodiad 1. Er mwyn sefydlu'r lleoliadau posibl lle mae gweithgareddau halogi wedi cael eu cynnal mae amryw o gofnodion defnydd tir wedi cael eu hadolygu ar y cyd â chofnodion OS Map hanesyddol. Ffynonellau data perthnasol eraill y cyfeirir atynt yw cyn-gofnodion trwyddedu petrolewm a chofnodion awdurdodau lleol o safleoedd tirlenwi caeedig.

### Adolygiad o Wybodaeth Cofnod Hanesyddol

Mae cofnodion hanesyddol, pan ar gael, yn gallu cynnwys gwybodaeth monitro safle gan gynnwys nwy neu brofion anwedd, neu ganlyniadau profion cemegol y pridd a gymerwyd oddi ar wyneb y safle neu ar ddyfnder. Mae ffynonellau data sydd ar gael yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i ychwanegu neu ddiweddarau'r gwybodaeth ac efallai bod Safleoedd hefyd wedi bod yn destun ymchwiliadau blaenorol ac adrodd ar adeg y datblygiad cynharach neu o dan arolygon diwydrwydd dyladwy.

Lle nad oes cofnodion profion pridd ar gael bydd swyddogion yn ymweld â'r safle i ganfod a oes unrhyw dystiolaeth y gall halogyddion sylweddol fod yn bresennol yn y ddaear. Byddai hyn yn cael ei wneud yn unol ag arferion da a chanllawiau awdurdodol perthnasol. Byddai gwybodaeth a fyddai'n berthnasol yn cynnwys ymddangosiad halogyddion ffisegol neu lifyn llystyfiant.

### Blaenoriaethu Safle a Sgorio Risg

Trwy ddefnyddio sgoriau risg ar gyfer mathau o dderbynyddion sensitif perthnasol, ac yn amodol ar adnoddau sydd ar gael, bydd yr Awdurdod yn nodi'r safleoedd sy'n peri risg uwch i Iechyd Dynol. Mae'r sgorio risg yn cael ei wneud gan ddefnyddio matrices sgorio. Mae'r matrices sgorio yn defnyddio'r derbynyddion sensitif o flaenoriaeth a nodwyd isod ac rhoi sgôr cymesur, yr agosaf y mae'r derbynnydd wedi ei leoli i'r ffynhonnell halogedig posibl. Mae'r categorïau derbynnydd o flaenoriaeth yn benodol yn cynnwys defnyddiau tir y gallai'r derbynyddion iechyd dynol sensitif (plentyn y derbynnydd mwyaf sensitif) fod yn agored i ffynonellau llygredd posibl. Mae'r mathau o ddefnydd tir yn cynnwys tai a holl adeiladau ysgol lle gallai amlygiad o bosibl ddigwydd



o fewn ardaloedd chwarae. Mae tiroedd chwarae cyffredinol wedi'u cynnwys fel ffynonellau posibl o amlygiad. Mae dyfroedd rheoledig (dyfroedd wyneb) wedi'u cynnwys oherwydd y symudedd posibl ac amlygiad i halogyddion o fewn cyrsiau dŵr.

### Derbynyddion Blaenoriaeth Sensitif

Bydd yr Awdurdod yn rhoi blaenoriaeth i Aseiad Risg o dir lle mae potensial i gael effaith sylweddol ar iechyd dynol. Caiff hyn ei gyflawni drwy ganolbwyntio ar safleoedd halogedig posibl sydd wedi eu lleoli yn agos at:

Tai ac Eiddo Preswyl eraill  
Rhandiroedd  
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd  
Ardaloedd Hamdden gan gynnwys Meysydd Chwarae a Pharciau  
Adnoddau Dŵr a Reolir  
Cyflenwadau Dŵr Preifat

Mae'r Awdurdod wedi datblygu system sgorio asesu risg sy'n ystyried pa mor agos yn ddaearyddol y mae'r safleoedd halogedig posibl i dderbynyddion sensitif â blaenoriaeth a amlinellir uchod. Mae'r system sgorio risg yn rhoi sgôr uwch i'r derbynydd sensitif a leolir ar y ffynhonnell tir sydd o bosib wedi'i lygru o'i gymharu ag oddi ar y safle. Gyda dilyniant i ffwrdd o'r safle a allai fod wedi'i lygru, y mwyaf yw'r pellter, yr isaf y sgôr o ran risg. Mae'r sgôr cyffredinol ar gyfer y safle yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar y flaenoriaeth archwilio.

## Camau Aseiad Risg

### Adolygiad o'r wybodaeth sydd ar gael

Gwybodaeth a gedwir eisoes gan yr Awdurdod yn cynnwys trwyddedau gwaredu gwastraff hanesyddol, ymchwiliadau daearyddol ac adroddiadau monitro'r safle. Er ei bod yn bosibl mai gwybodaeth trydydd parti yw'r ffynhonnell a gafodd ei gaffael yn wreiddiol o dan swyddogaeth reoleiddiol, mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei gynnal hefyd yn ystod archwiliadau safle sydd wedi cael eu gwneud yn uniongyrchol gan yr Awdurdod. Gellir cael gaffael ar wybodaeth am gyflwr y tir hefyd o geisiadau cynllunio blaenorol. Mae adolygiad o gofnodion hanesyddol yn cael ei wneud ar hyn o bryd i drosglwyddo cofnodion ar bapur i archif electronig, lle bo hynny'n ymarferol.

Bydd hyn yn cael ei wneud gan gyfeirio at Gyfresi o Ddata Allweddol, fel y dangosir yn Rhan C, gan gynnwys gwybodaeth ddaeaegol a hydrolegol drwy'r camau canlynol:

#### 1 Arolwg Pen-desg

#### 2 Archwiliadau Safle ar Droed/Gweledol

#### 3 Aseiad Risg Rhagarweiniol ac Aseiad Risg Meiniol Generig o Ddatblygu Model Safle Cysyniadol

Pan fo'n briodol mae data profi pridd ar gael, a bydd Aseiad Risg Meiniol Generig yn cael ei wneud gan ddefnyddio safonau perthnasol. Mae cymhwysedd Canllaw Gwerthoedd Pridd (SGVs) yn cael eu disgrifio yn "Rhaglen Wyddonol Gwell Rheoleiddio Asiantaeth yr Amgylchedd"<sup>2</sup> at ddibenion asesu'r risg cronig i iechyd pobl o amlygiad hirdymor i gemegau mewn pridd.

Mae'r Canllaw Gwerthoedd Pridd yn gyson â chefnidir technegol a ddiweddarwyd i'r model CLEA (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2009) ac aseiad gwenwynegol Iechyd pobl o halogyddion mewn pridd (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2009). Nid yw gormodiant o Ganllawiau Gwerthoedd Pridd penodedig o reidrwydd yn cynrychioli trothwy lle mae Posibilrwydd Sylweddol o Niwed Sylweddol (SPOSH) o'r

amlygiad i'r halogydd, ond bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer yr asesiad. Mae yna hefyd gyfres cyfyngedig o Ganllawiau Gwerthoedd Pridd ar gael, a oedd ar adeg adolygu'r ddogfen hon yn cynnwys y paramedrau canlynol:

Arsenig  
Bensen  
Cadmiwm  
Diocsinau, Ffwrnau a PCBs o fath deuocsin mewn pridd  
Ethylbenzene  
Mercur  
Ffenol  
Seleniwm  
Tolwen  
Xylene

Cyflwynodd y Canllaw Statudol Tir Halogedig diwygiedig bedwar categori lle y gellid dosbarthu tir halogedig. Categori 1 Iechyd Dynol yw'r categori risg uchaf lle mae tebygolrwydd uchel bod Posibilrwydd Sylweddol o Niwed Sylweddol (SPOSH) yn cael ei achosi i dderbynyddion iechyd dynol. Categori 4 Iechyd Dynol yw'r categori isaf lle mae lefel y risg a berir yn isel ac nad yw'r tir yn peri posibilrwydd sylweddol o niwed sylweddol. I helpu gyda'r broses o sgrinio safleoedd sydd â lefel isel o risg ac na ddylai gael eu hystyried ymhellach ar gyfer asesu risg mwy manwl, mae cyfres o Lefelau Sgrinio Categori 4 wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer halogion a nodwyd yn gyffredin o fewn asesiadau risg. Y paramedrau yw:

Cadmiwm  
Benso(a)pyren  
Bensen  
Arsenig  
Plwm  
Cromiwm VI

Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio at Lefelau Sgrinio Categori 4 ar gyfer yr halogyddion wedi'u rhestru uchod i i sgrinio safleoedd sydd o bosib ddim angen eu harchwilio a'u hasesu ymhellach.

Trwy ddilyn y Canllawiau Statudol ni fydd yr Awdurdod yn ystyried tir sydd â'r potensial i gael ei adnabod yn Dir Halogedig lle mae lefelau normal o halogiad yn bresennol yn y pridd oherwydd natur y pridd a gynhyrchwyd gan y ddaear sylfaenol.

Lle mae halogion posibl eraill yn cael eu nodi o fewn yr asesiad risg ond nad ydynt wedi eu rhestru uchod bydd yr Awdurdod yn ystyried y defnydd o ffynonellau perthnasol ac awdurdodol eraill o wybodaeth.

Bydd yr Awdurdod yn cynnal yr asesiad risg o dir a allai fod yn halogedig ar sail blaenoriaeth, yn seiliedig ar y fethodoleg a amlinellir yn y Strategaeth Archwilio ac yn amodol ar gyfyngiadau o ran adnoddau. Oherwydd y sefyllfa ariannol ansicr ac absenoldeb cyllid y llywodraeth ganolog ar gyfer naill ai archwilio safle neu gamau adferol, darpariaeth gyllidebol gyfyngedig sydd gan yr Awdurdod. Ar ben hynny, ni ellir pennu nifer yr archwiliadau a fydd yn cael eu cynnal ac felly bydd y broses Rheoli Datblygu yn parhau i fod yn ffocws sylweddol o gamau adferol i safleoedd halogedig posibl yn y dyfodol.

## Cyswllt Mewnol

Mae Strategaeth Tir Halogedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cael ei ddrafftio gan yr Adran Rheoleiddio a Gwasanaethau Tai gyda pherthnasedd i Adrannau eraill o fewn yr Awdurdod. Mae gwybodaeth safle posibl yn cael ei gydlynu gydag adrannau perthnasol gan gynnwys yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Gwasanaethau Eiddo a Rheoli Datblygu. Mae hyn yn sicrhau dull cydlynol o fewn y broses o adnabod ac asesu tir halogedig.

Bydd tir sydd o dan berchnogaeth y cyngor yn cael ei ystyried gan broses asesu cyfatebol o'i gymharu â thir dan berchnogaeth breifat. Mae ymagwedd drefnus a strwythuredig yn galluogi archwilio tir dan berchnogaeth yr Awdurdod sydd o bosib yn halogedig cyn y penderfynir ailddatblygu'r tir i sicrhau bod Cysylltiadau Halogion posibl yn cael eu cau allan.

## Rhan C – Ffynonellau Gwybodaeth

### Ffynonellau Data a Rheoli Gwybodaeth

Mae'r Adran wedi datblygu system GIS Mapinfo a ddefnyddir i reoli'r data gwybodaeth a'r data defnydd tir a gafwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

#### Mapiau OS Hanesyddol

Mapiau wedi'u sganio'n ddigidol o gyfnodau mapio ar gael yn cynnwys Cynlluniau 1:500 o Ganol Trefi a mapiau ar Raddfeydd 1:1250, 1:2500, 1:10560 ac 1:10,000 yn cynnwys y cyfnodau canlynol:

Epoch 1 (1877-1833)

Epoch 2 (1897 – 1900)

Epoch 3 (1916 -1926)

Epoch 4 (1934 – 1939)

Epoch 5 (1961-1961)

Epoch 6 (1978 – 1996)

#### Mapiau Daeareg Solid a Drifft

Mae mapiau Daearegol Digidol i'w cael o Arolwg Daearegol Prydain

#### Gwendid Dŵr Daear

Mae data Geoset i'w gael yn electronig gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

#### Data Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (blaenorol) a Chyfoeth Naturiol Cymru

Mae gwybodaeth amgylcheddol berthnasol wedi cael ei darparu ar ffurf mapiau digidol gan Asiantaeth yr Amgylchedd fel troshaen i fapiau GIS yr Awdurdod.

Mae'r data wedi cael ei rannu i'r categorïau canlynol:

Data GIS Polygon Digidol 1:50,000 ar Ffiniau Cynllun Gweithredu Amgylchedd Lleol (LEAP)

Data GIS Polygon Digidol 1:10,000 ar Safleoedd Tirlenwi Gweithredol

Data GIS Polygon Digidol 1:50,000 ar Safleoedd Tirlenwi Eraill

Data GIS Pwynt Digidol ar Bwyntiau Samplu Dŵr Ymdrochi

Data GIS Pwynt Digidol ar Dyniadau Dŵr Trwyddedig

Data GIS Pwynt Digidol ar Rhyddhau Caniatâd -Gweithredol  
-Diddymu

Lleoliadau Gwrthrychol Ansawdd Afon - Biologol AAC Cemegol AAC

### Data GIS Polygon Digidol ar Barthau Gwarchod Ffynhonnell Archif Datblygu Rheolaeth a Chofnodion Defnydd Tir

Mae gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu at y wybodaeth yn seiliedig ar fapiau i nodi ffynonellau posibl o halogiad.

### Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

Mae CDLI Conwy a fabwysiadwyd yn Hydref 2013 yn darparu un fframwaith ar gyfer rheoli datblygiad a defnydd o dir yng Nghonwy

### Henebion Hanesyddol a Gwybodaeth Archaeolegol

Mae'n cael ei gynnal fel tabl data GIS.

### Proffiliau Diwydiant Adran yr Amgylchedd

Rhestr gynhwysfawr o achosion diwydiannol a allai achosi llygredd wedi cael eu llunio gan Adran yr Amgylchedd (blaenorol). Mae proffiliau'r Diwydiant yn dal i gael eu hystyried fel ffynhonnell o wybodaeth briodol i asesu arwyddocâd posibl cyn-weithgareddau ar diroedd. Mae'r rhestr wedi ei chynnwys yn ATODIAD 1.

## Rhan D - Amlinelliad o'r Gweithdrefnau

### Ymdrin â gwybodaeth a Ddarperir i'r Awdurdod gan y Cyhoedd a Sefydliadau allanol ynghylch Tir Halogedig Posib

Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â thir halogedig posibl yn y lle cyntaf yn cael ei dderbyn yn ysgrifenedig gan y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai.

Bydd darparwr y wybodaeth yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig bod yr wybodaeth wedi dod i law gan egluro'r weithdrefn lle bydd y wybodaeth yn cael ei gadw a sut y bydd yr Awdurdod yn ymdrin â'r wybodaeth.

Bydd y wybodaeth yn cael ei ystyried ar y cyd â'r Strategaeth Archwilio, a bydd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asesu risg ac archwiliad.

Lle mae'r tir yn eiddo CBS Conwy, bydd y wybodaeth yn cael ei adolygu gan yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Adran berthnasol sy'n meddiannu a / neu gynnal a chadw'r tir. Os nad yw'n dir ym meddiant CBS Conwy bydd y meddiannydd yn cael gwybod am y cwrs gweithredu arfaethedig gan yr Awdurdod.

Os bydd gwybodaeth eisoes wedi cael ei asesu ar gyfer y safle, gydag asesiad risg wedi'i wneud yn barod, bydd yr asesiad risg yn cael ei adolygu i ystyried a oes unrhyw lwybrau newydd posibl bellach yn bodoli i amlygiad o halogiad.

### Delio â Cheisiadau Gwasanaeth Ynghylch Tir Halogedig

Mae'r weithdrefn 'Cais am Wasanaeth' Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai a ddilynir yn cael ei ddangos yn ATODIAD 2.

### Darparu Gwybodaeth Cofrestr Gyhoeddus

Bydd gwybodaeth a fydd yn cael ei gasglu yn y broses o gynnal Gofynion statudol Rhan IIA o bosib yn agored i ymholiad gan aelodau o'r cyhoedd neu gan gwmnïau sy'n arbenigo mewn darparu gwybodaeth amgylcheddol berthnasol ar gyfer chwiliadau cyfreithiol. Bydd gwybodaeth benodol yn cael ei rhoi ar y Gofrestr o Dir Halogedig sy'n ofynnol i gael ei gynnal o dan Adran 78R(1).

Mae'r adrannau perthnasol y cynhelir y wybodaeth wedi'u hamlinellu fel a ganlyn:

- Hysbysiadau Adfer
- Apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Adfer
- Datganiadau Adfer
- Mynegiadau Adfer
- Apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Codi Tâl

- Dynodi Safleoedd Arbennig
- Hysbysiad o Hawlio Adfer
- Collfarnau ar gyfer Adeiladau o dan Adran 78M
- Arweiniad a gyhoeddwyd dan Adran 78V(1)
- Rheolaethau Amgylcheddol Eraill.

Mae Cofrestr Gyhoeddus electronig yn cael ei gynnal o dan Adran 78R(1) o'r Ddeddf. Gellir gweld copi o'r gofrestr yn rhad ac am ddim trwy gysylltu â [ghwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk](mailto:ghwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk)

### Gwybodaeth a ddarperir dan System Pridiannau Tir yr Awdurdod Lleol

Mae gwybodaeth yn ymwneud â Thir Halogedig i'w gael o dan y weithdrefn Con 29 diwygiedig fel y nodir yn ATODIAD 3.

### Cyswllt Pellach

Gellir cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig i:

Mr.S. Cottrill  
Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd,  
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai,  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,  
Y Swyddfeydd Dinesig,  
Bae Colwyn,  
CONWY  
LL29 8AR

Ffôn: 01492 575266.

Neu drwy e bost ar [ghwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk](mailto:ghwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk)

## ATODIAD 1

### Proffiliau Diwydiant Adran yr Amgylchedd

Mae'r rhestr o broffiliau'r diwydiant a restrir isod yn cael eu defnyddio i nodi mathau arwyddocaol posibl o ddefnydd tir:

Meysydd Awyr

Gweithfeydd anifeiliaid a phrosesu cynhyrchion anifeiliaid

Gweithfeydd gweithgynhyrchu Asbestos

Gweithfeydd gweithgynhyrchu cerameg, sment ac asffalt

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; cotiadau (paentiau ac inciau argraffu)

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; diheintyddion

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; ffrwydron, tanwyddau a pyrotechnegau

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; gweithgynhyrchu gwrtaith

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; gweithgynhyrchu cemegion mân

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; cemegion an-organig

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; linoliwm, finyl a bitumen

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; mastigau, selio, gludyddion a ffelt toi

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; cemegion organig

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; gwrtaith

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; cynhyrchion fferyllol

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; prosesu rwber (gan gynnwys gwaith teiars a chynhyrchion rwber eraill)

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwaith cemegol; sebon a glanedydd

Iardiau llongau a thir llongau

Gwaith peirianyddol; gweithgynhyrchu awyrennau

Gwaith peirianyddol; gweithfeydd offer trydanol ac electronig (gan gynnwys cyfarpar gweithgynhyrchu sy'n cynnwys PCBs)

Gwaith peirianyddol; gwaith peirianneg fecanyddol ac ordnans

Gwaith peirianyddol; gwaith peirianneg rheilffordd

Gwaith peirianyddol; adeiladu llongau, trwsio a thorri llongau (gan gynnwys ierdydd llongau llyngesol)

Gwaith peirianyddol; gweithgynhyrchu cerbydau

Gwaith nwy, gweithfeydd golosg a ffatrioedd carboneiddio eraill

Gweithgynhyrchu metel, gwaith puro a gorffennu; electroplatio a gwaith gorffennu metel arall

Gweithgynhyrchu metel, gwaith puro a gorffennu; gwaith haearn a dur

Gweithgynhyrchu metel, gwaith puro a gorffennu; gwaith plwm

Gweithgynhyrchu metel, gwaith puro a gorffennu; gwaith metel anfferrus heb gynnwys gwaith plwm

Gweithgynhyrchu metel, gwaith puro a gorffennu; gwaith adfer metal gwerthfawr

Purfeydd olew a storio swmp o olew crai a chynhyrchion petrolewm

Gorsafoedd pŵer (ac eithrio gorsafoedd ynni niwclear)

Gweithfeydd gweithgynhyrchu mwydion a phapur

Tir rheilffordd

Tanwydd cerbydau ffordd, gwasanaethu a thrwsio; garejys a gorsafoedd petrol

Tanwydd cerbydau ffordd, gwasanaethu a thrwsio; canolfannau trafndiaeth a chcludiant

Gwaith carthffosiaeth a ffermydd carthffosiaeth

Gwaith tecstilau a gwaith lliwio

Gweithfeydd gweithgynhyrchu cynhyrchion pren

Gweithfeydd trin pren

Safleoedd ailgylchu, trin a gwaredu gwastraff: ffatrioedd glanhau drymiau a thanciau ac ailgylchu

Safleoedd ailgylchu, trin a gwaredu gwastraff: ffatrioedd trin nodweddion peryglus a gwastraff

Safleoedd ailgylchu, trin a gwaredu gwastraff: safleoedd tirlenwi a thrin a gwaredu gwastraff



Safleoedd ailgylchu, trin a gwaredu gwastraff: safleoedd tirlenwi a thrin a gwaredu gwastraff

Safleoedd ailgylchu, trin a gwaredu gwastraff: safleoedd ailgylchu metel

Safleoedd ailgylchu, trin a gwaredu gwastraff: gweithfeydd adfer toddyddion

Proffil o ddiwydiannau amrywiol yn cynnwys:

Gweithfeydd siarcol

Sych-glanhawyr

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwydr ffibr a resinau gwydr ffibr

Gweithfeydd gweithgynhyrchu gwydr


Diwydiant prosesu ffotograffiaeth

Gweithfeydd argraffu a rhwymo llyfrau

## ATODIAD 2

### Gweithdrefn i Ddelio â Cheisiadau Gwasanaeth - Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai

#### SERVICE REQUEST



## ATODIAD 3

### Gwybodaeth a ddarperir o dan ymholiadau chwilio awdurdod lleol

#### Ffurflen Ddiwygiedig CON29 (Ebrill 2000)

Cwestiwn Ychwanegol 16A (\* gweler troednodyn 12a isod)  
Cofrestru Cofnodion

16.A.1. Rhestrwch unrhyw gofnodion yn y gofrestr a gedwir o dan Adran 78R (1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â'r eiddo.

#### **Hysbysiad o adnabod tir halogedig**

16.A.2. Ydi'r Cyngor wedi gwasanaethu neu geisio datrys cyflwyno unrhyw hysbysiad o dan Adran 78B(3) mewn perthynas â'r eiddo?

#### **Ymgynghoriad ynghylch tir halogedig cyffiniol neu gyfagos**

16.A.3. Ydi'r Cyngor wedi ymgynghori, neu benderfynu ymgynghori, gyda'r perchennog neu ddeiliad yr eiddo dan Adran 78G (3) mewn perthynas ag unrhyw beth i gael ei wneud ar yr eiddo o ganlyniad i dir sy'n ffinio neu'n agos i dir halogedig?

#### **Nodi perygl i dir ffiniol neu gyfagos**

16.A.4. A oes unrhyw gofnod a wnaed yn y gofrestr, neu oes unrhyw hysbysiad wedi'i gyflwyno neu ei ddatrys o dan Adran 78B (3), mewn perthynas ag unrhyw dir cyffiniol neu gyfagos sydd wedi cael ei nodi fel tir halogedig oherwydd ei fod yn y fath gyflwr a allai achosi niwed neu lygru dyfroedd rheoledig ar yr eiddo?

### TROEDNODYN YCHWANEGOL

(12A) Nid yw atebion negyddol yn awgrymu bod yr eiddo neu unrhyw dir cyffiniol neu gyfagos yn rhydd o halogiad neu ddim mewn risg o halogiad. Efallai na fydd ymholiadau 16A.3 a 16A.4 yn datgelu camau a gymerwyd gan Gyngor arall dros yr ardal cyffiniol neu gyfagos lle mae'r tir yn seiliedig.

## NEWID I GWESTIWN 34

Diwygio'r geiriau mewn cromfachau i ddarllen: (Nid yw'r ymchwiliad yn ymdrin â hysbysiadau a gyflwynir o dan Ran IIA neu Ran III o'r EPA, y mae Ymholiadau 16A a 5 yn gymwys)